Etholiadau Pwyllgorau Equity 2019

FFURFLEN ENWEBU

PWYLLGORAU DIWYDIANNOL
Sgrin a Chyfryngau Newydd
Llwyfan
Adloniant Ysgafn, Syrcas a Diddanwyr

PWYLLGORAU ARBENIGOL
Sain
Dawns
Cyfarwyddwyr a Chynllunwyr
Cantorion
Rheoli Llwyfan

PWYLLGORAU CENEDLAETHOL
Gogledd Iwerddon
Yr Alban
Cymru

PWYLLGORAU CYDRADDOLDEB
Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol +
Byddar ac Anabl
Lleiafrifoedd Ethnig
Menywod

Aelodau Ifanc

DYDDIAD CAU: HANNER DYDD, DYDD GWENER 10 MAI

Annwyl aelod Equity

Mae Equity wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn rym diwydiannol cryf a bod pob llais yn yr undeb yn cael ei glywed.

Er mwyn cyflawni hyn mae Cyngor Equity wedi creu strwythur ar gyfer rhwydwaith pwyllgorau'r undeb, ac yn ganolog i'r strwythur hwn y mae tri phwyllgor diwydiannol dylanwadol - Sgrin a Chyfryngau Newydd, Llwyfan ac Adloniant Ysgafn, Syrcas a Diddanwyr - sydd â'r awdurdod i gynnal trafodaethau. Mae'r pwyllgorau hyn, sy'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad diweddar o waith perthnasol ac a etholwyd gan aelodau sydd â phrofiad tebyg, yn flaenllaw mewn gwella tâl ac amodau ar gyfer aelodau. Yn cefnogi'r rhain ceir pum pwyllgor arbenigol - Sain, Dawns, Cantorion, Rheoli Llwyfan a Chyfarwyddwyr a Chynllunwyr - y cyfan gydag aelodaeth sydd â phrofiad gweithiol perthnasol diweddar.

Mae pwyllgorau o aelodau hefyd yn Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, pedwar pwyllgor cydraddoldeb – Byddar ac Anabl; Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol +, Lleiafrifoedd Ethnig; a Menywod – a Phwyllgor Aelodau Ifanc.

Mae'r pwyllgorau hyn yn rhan bwysig o ddemocratiaeth yr undeb ac yn rym deinamig ar gyfer newid. Gyda chefnogaeth Cyngor Equity maent yn datblygu'r agenda diwydiannol, yn hyrwyddo'r polisïau a wneir gan yr undeb ac yn sicrhau bod llais yr aelodau gweithiol yn ganolog yng ngwaith yr undeb.

Gobeithiaf y byddwch yn darllen y daflen hon ac yn penderfynu y gallwch chi wneud cyfraniad i un o bwyllgorau Equity. Os felly, mae papur enwebu wedi'i atodi - llenwch ef a'i ddychwelyd i ni erbyn hanner dydd ar Ddydd Gwener 10 Mai 2019. Gallwch hefyd gyflwyno eich enwebiad ar-lein yn www.equity.org.uk.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ffoniwch ein llinell gymorth etholiadau ar 020 7670 0266 neu e-bostio elections@equity.org.uk. Gallwch hefyd wylio fideo byr sy'n amlinellu sut y mae pwyllgorau Equity yn gweithio ar ein sianel YouTube: www.youtube.com/EquityUK.

Os ydych chi'n teimlo na allwch chi eich hun sefyll ar gyfer etholiad, cofiwch ddefnyddio eich pleidlais yn yr etholiadau ym mis Mehefin.

Yn gywir

Christine Payne
YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

CAEL EICH ETHOL I UN O BWYLLGORAU EQUITY

Beth ydyn nhw?

Yn y rownd hon o etholiadau, mae aelodau Equity yn ethol:

- wyth pwyllgor diwydiannol ac arbenigol yn cynrychioli aelodau sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd yn y diwydiant adloniant;
- tri phwyllgor cenedlaethol yn cynrychioli aelodau yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru;
- pedwar pwyllgor cydraddoldeb - Byddar ac Anabl; Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol +; Lleiafrifoedd Ethnig; a Menywod
- Pwyllgor Aelodau Ifanc

Etholir pob un o'r 16 pwyllgor gan, ac o blith, aelodau Equity. Gall unrhyw aelod cymwys sefyll yn yr etholiad. Ceir crynodeb manylach o bob pwyllgor ar dudalen 6 y ddogfen hon.

A ydw i'n gymwys i sefyll?

- Er mwyn sefyll ar gyfer aelodaeth o bwyllgor diwydiannol neu arbenigol rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o enillion proffesiynol gwerth £500 neu fwy o faes y diwydiant a gwmpesir gan y pwyllgor yn ystod y tair blynedd cyn i'r enwebiadau gau.
- Er mwyn sefyll ar gyfer pwyllgor cenedlaethol rhaid i chi fod yn byw yn y wlad a gwmpesir gan y pwyllgor.
- Er mwyn sefyll ar gyfer un o'r pedwar pwyllgor cydraddoldeb rhaid i chi uniaethu fel aelod o'r grŵp a gynrychiolir a rhaid i chi hefyd gyflwyno tystiolaeth o enillion proffesiynol gwerth £500 neu fwy o unrhyw faes y diwydiant yn ystod y tair blynedd cyn i'r enwebiadau gau.
- Er mwyn sefyll ar gyfer y Pwyllgor Aelodau Ifanc rhaid i chi fod yn 30 oed neu iau pan fydd yr enwebiadau'n cau a rhaid i chi hefyd gyflwyno tystiolaeth o enillion proffesiynol gwerth £500 neu fwy o unrhyw faes y diwydiant yn ystod y tair blynedd cyn i'r enwebiadau gau.
- Rhaid bod eich tanysgrifiad i Equity yn gyfredol.
- Ni chewch sefyll ar gyfer mwy nag un o'r wyth pwyllgor diwydiannol ac arbenigol.
- Nid yw aelodau Equity sy'n blant neu'n fyfyrwyr yn gymwys i sefyll yn yr etholiadau hyn.

Faint o'm hamser fydd angen i mi ei neilltuo i fod ar bwyllgor?

Bydd angen i chi fod yn frwdfrydig ac yn barod i roi peth o'ch amser i fod yn aelod o un o bwyllgorau Equity, ond nid oes disgwyl i chi neilltuo cyfnodau eithafol o amser. Bydd y rhan fwyaf o bwyllgorau'n cyfarfod bedair neu bum gwaith y flwyddyn a mynychu'r cyfarfodydd hynny, os gallwch, yw'r ymrwymiad sylfaenol. Efallai y byddwch hefyd am fod yn rhan mewn ymgyrch benodol, cynorthwyo i lunio cytundeb diwydiannol newydd neu gynrychioli'r pwyllgor yng nghynhadledd flynyddol Equity. Os cewch eich ethol byddwch yn gwasanaethu ar y pwyllgor am ddwy flynedd. Bydd yr undeb yn talu am holl dreuliau rhesymol mynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

Sut alla'i sefyll?

Llenwch dudalennau 4 a 5 y ffurflen hon a dewch o hyd i gyd-aelod i gynnig eich enw, neu fe allwch gynnig eich hun. Rhaid i chi gael eich eilio gan aelod arall. Dychwelwch y ffurflen hon, gyda llun ohonoch, datganiad etholiad yn cynnwys hyd at 150 o eiriau a thystiolaeth o'ch enillion proffesiynol os bydd angen, erbyn diwedd y cyfnod enwebiadau am hanner dydd ar Ddydd Gwener 10 Mai 2019. Mae'n bosibl hefyd i gwblhau eich enwebiad ar-lein.

Gallwch hefyd gael eich enwebu gan gangen Equity. Rhaid i unrhyw gynnig gan gangen i enwebu ymgeisydd ymddangos ar yr agenda a ddosbarthir cyn cyfarfod y gangen a rhaid i un o swyddogion y gangen lenwi ac arwyddo'r ffurflen enwebu gan nodi'n glir enw'r gangen sy'n enwebu. Ni all canghennau wneud enwebiadau ar-lein.

Pryd y cynhelir yr etholiadau?

Bydd yr etholiadau yn dechrau ym mis Mehefin eleni a chyhoeddir y canlyniadau ym mis Gorffennaf. Os cewch eich ethol bydd eich tymor yn y swydd yn dechrau unwaith y cyhoeddir y canlyniadau a bydd yn para am ddwy flynedd. Beth am roi cynnig arni! Cewch gyfle i drafod materion allweddol yn ymwneud â'r diwydiant adloniant gyda gweithwyr proffesiynol o'r un bryd â chi ac fe gewch leisio eich barn ynglŷn â sut y mae Equity yn gweithredu. Ffoniwch 020 7670 0266 neu e-bostiwch elections@equity.org.uk os hoffech ragor o wybodaeth ynglŷn â sut mae'r pwyllgorau'n gweithio.

Y FFURFLEN ENWEBU

Os ydych chi eisiau sefyll ar gyfer yr etholiad a lleisio eich barn, gallwch wneud hynny mewn pedwar cam syml:

1. AR BA BWYLLGOR HOFFECH CHI WASANAETHU?

Ticiwch y ☐ nesaf at y pwyllgor neu adran pwyllgorau yr hoffech sefyll ar ei gyfer/chyfer.

NODER – ni allwch sefyll am fwy nag un o'r wyth pwyllgor diwydiannol neu arbenigol neu mewn mwy nag un adran o unrhyw un o'r pwyllgorau.

PWYLLGORAU DIWYDIANNOL

■ SGRIN A CHYFRYNGAU NEWYDD
- ☐ Actorion (10 sedd)
- ☐ Rhodwyr (3 sedd)
- ☐ Perfformwyr/Cydlynwyr Styntiau (1 sedd)
- ☐ Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (2 sedd)

■ LLWYFAN
- ☐ Actorion (10 sedd)
- ☐ Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (2 sedd)

■ ADLONIANT YSGAFN, SYRCAS A DIDDANWYR
- ☐ Adloniant Ysgafn, Syrcas a Diddanwyr (12 sedd)
- ☐ Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (2 sedd)

PWYLLGORAU ARBENIGOL

☐ SAIN (9 sedd)

☐ DAWNS (9 SEDD)

■ CYFARWYDDWYR A CHYNLLUNWYR
- ☐ Cynllunwyr Theatr (4 sedd)
- ☐ Cyfarwyddwyr Theatr (4 sedd)
- ☐ Cyfarwyddwyr Ymladd Theatr (2 sedd)

☐ CANTORION (9 SEDD)

☐ RHEOLI LLWYFAN (9 SEDD)

PWYLLGORAU CENEDLAETHOL

☐ GOGLEDD IWERDDON (9 sedd)

☐ YR ALBAN (12 SEDD)

☐ CYMRU (12 SEDD)

PWYLLGORAU CYDRADDOLDEB

■ POBL LESBIAIDD, HOYW, DDEURYWIOL A THRAWSRYWEDDOL +
- ☐ Aelodau sy'n uniaethu fel menyw (3 sedd)
- ☐ Aelodau sy'n uniaethu fel gwryw (3 sedd)
- ☐ Traws (yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i aelodau trawsryweddol, anneuaidd, rhyweddhylifol, genderqueer a rhyngrywiol) (3 sedd)

☐ BYDDAR AC ANABL (9 sedd)

☐ LLEIAFRIFOEDD ETHNIG (9 sedd)

☐ MENYWOD (9 sedd)

☐ AELODAU IFANC (9 sedd)

- **TYSTIOLAETH O WAITH** Os ydych chi'n sefyll ar gyfer **PWYLLGOR DIWYDIANNOL NEU ARBENIGOL** rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o enillion proffesiynol gwerth £500 neu fwy yn y cyfnod a gynrychiolir (gweler tudalen 6) yn ystod y tair blynedd cyn i'r enwebiadau gau. Gallai hwn fod yn gopi o gontract, rhestr cast neu'n gofnod tâl. Ar gyfer y **PWYLLGORAU CYDRADDOLDEB** a'r **PWYLLGOR AELODAU IFANC** rhaid i chi ddangos tystiolaeth o enillion proffesiynol gwerth £500 neu fwy mewn unrhyw faes o'r diwydiant adloniant yn ystod y tair blynedd cyn i'r enwebiadau gau. Os nad ydych yn cyflwyno tystiolaeth o waith gyda'ch ffurflen enwebu efallai na chaiff eich enwebiad ei dderbyn.
- Os ydych chi'n sefyll ar gyfer y **PWYLLGOR AELODAU IFANC** rhaid i chi dicio'r blwch isod i gadarnhau eich bod yn 30 oed neu iau pan fydd yr enwebiadau'n cau. Ticiwch ☐

TROWCH DROSODD ▷

FFURFLEN ENWEBU (parhad)

2. EICH MANYLION

Rydw i wedi darllen y ddogfen hon ac yn datgan fy mod yn gymwys i sefyll ar gyfer y pwyllgor a ddynodir ac rwy'n amgáu tystiolaeth o waith yn ystod y tair blynedd ddiwethaf os oes angen. Ticiwch ☐

Enw Equity .....Rhif Equity .....

Ffôn..... E-bost .....

Llofnod .....

3. EICH CYNIGYDD AC EILYDD

Oni bai eich bod wedi'ch enwebu gan gangen Equity, bydd angen cynigydd ac eilydd arnoch. Gallwch gynnig eich hun. Rhaid i chi, eich cynigydd a'ch eilydd fod â thanysgrifiad cyfredol i Equity. Os cewch eich enwebu gan un o ganghenau Equity yna mae'n rhaid i swyddog o'r gangen honno arwyddo.

Cynigydd

Enw Equity .....

Rhif Equity .....

Llofnod .....

Eilydd

Enw Equity .....

Rhif Equity .....

Llofnod .....

NEU

Enwebiad Cangen

Enw'r gangen .....

Swyddog y gangen .....

Llofnod .....

4. EICH DATGANIAD ETHOLIAD

Anogir chi i gyflwyno datganiad etholiad sy'n cynnwys hyd at 150 o eiriau. Gallwch ysgrifennu beth bynnag a fynnoch, ond er mwyn i aelodau allu cymharu pa mor addas yw gwahanol ymgeiswyr rydym yn argymell bod eich datganiad yn ateb y pedwar cwestiwn canlynol:
- Beth yw eich profiad yn y maes a gwmpesir gan y pwyllgor?
- Beth ydych chi am i'r pwyllgor ei gyflawni yn ystod y ddwy flynedd nesaf?
- Beth ydych chi'n feddwl allwch chi ei gyfrannu i'r pwyllgor?
- Beth yw eich profiad o fewn Equity?

Gallwch ysgrifennu cymaint ag yr hoffech ar gyfer pob cwestiwn ond ni ddylai cyfanswm nifer geiriau'r datganiad fod yn fwy na 150 gair. Os bydd yn hwy, fe fyddwn yn ei dorri ar ôl y canfed gair a hanner er mwyn bod yn deg i bawb.

Cyhoeddir datganiadau etholiad gyda'r papurau pleidleisio. Gallwch hefyd gynnwys llun ohonoch er mwyn ei gyhoeddi wrth ochr eich datganiad etholiad. Anfonwch eich datganiad etholiad a'ch llun at elections@equity.org.uk. Os nad oes gennych gyfeiriad e-bost, gallwch gysylltu eich datganiad a'ch llun wrth y ffurflen enwebu hon.

5. RHESTR WIRIO – YDYCH CHI WEDI:
- Llenwi adrannau 1, 2 a 3?
- Atodi tystiolaeth o waith os oes angen?
- E-bostio eich datganiad etholiad a llun at elections@equity.org.uk.

Datgysylltwch a dychwelwch y ffurflen hon i: Equity Elections, Guild House, Upper St Martin's Lane, London WC2H 9EG erbyn hanner dydd ar Ddydd Gwener 10 Mai 2019.

Y PWYLLGORAU

DIWYDIANNOL AC ARBENIGOL

Mae tri phwyllgor diwydiannol a phum pwyllgor arbenigol. Dim ond ar gyfer un o'r pwyllgorau hyn y gallwch sefyll a rhaid i chi allu dangos enillion proffesiynol o faes perthnasol y diwydiant adloniant a gwmpesir gan y pwyllgor yn ystod y tair blynedd cyn i'r enwebiadau gau.

- **Sgrin a Chyfryngau Newydd** Mae gan y pwyllgor hwn awdurdod dirprwyedig gan Gyngor Equity i drafod cytundebau diwydiannol ym mhob elfen o waith sydd i'w ddangos ar y sgrin ym meysydd teledu, ffilm, gemau, rhyngrwyd, nid er darlledu a hysbysebion. Mae'r pwyllgor yn cynnwys deg actor, tri rhodiwr, un perfformiwr/cydlynydd styntiau a dau aelod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Bydd cadeirydd neu is-gadeirydd neu aelod arall o'r Pwyllgorau Sain, Dawns a Chantorion yn aelod o'r Pwyllgor gyda hawliau pleidleisio llawn.
- **Llwyfan** Mae gan y pwyllgor hwn awdurdod dirprwyedig gan Gyngor Equity i drafod cytundebau diwydiannol ym mhob maes perfformio byw, ac eithrio adloniant ysgafn, yn cynnwys theatr y West End, theatr fasnachol, theatr cwmni cenedlaethol neu ranbarthol cymorthdaledig, theatr annibynnol, theatr stryd, theatr ymylol, theatr awyr agored a theithiol tramor, theatr mewn addysg a theatr pobl ifanc, opera, bale, dawns a chwarae rôl. Mae'n cynnwys deg actor a dau aelod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Bydd cadeirydd neu is-gadeirydd neu aelod arall o'r Pwyllgorau Sain, Dawns, Cyfarwyddwyr a Chynllunwyr, Cantorion, Rheoli Llwyfan, Dirprwyon y West End a Dirprwyon Opera yn aelod o'r Pwyllgor gyda hawliau pleidleisio llawn.
- **Adloniant Ysgafn, Syrcas a Diddanwyr** Mae'r pwyllgor hwn yn cynrychioli aelodau sy'n gweithio fel "act" mewn adloniant ysgafn, cabaret, burlesque, syrcas, adrodd storïau neu adloniant tebyg ac mae'n cynnwys 14 aelod. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod unwaith y flwyddyn gyda chynrychiolwyr yr holl Ganghennau Adloniant Ysgafn.
- **Sain** Mae'r pwyllgor hwn yn cynrychioli aelodau sy'n gweithio fel artistiaid sain yn unrhyw faes o'r diwydiant adloniant.
- **Dawns** Mae'r pwyllgor hwn yn cynrychioli aelodau sy'n gweithio fel dawnswyr neu goreograffwyr yn unrhyw faes o'r diwydiant adloniant.
- **Cyfarwyddwyr a Chynllunwyr** Mae'r pwyllgor hwn yn cynrychioli aelodau sy'n gweithio fel cynllunwyr, cyfarwyddwyr neu gyfarwyddwyr ymladd ym mhob maes o'r theatr.
- **Cantorion** Mae'r pwyllgor hwn yn cynrychioli aelodau y mae eu gwaith yn cynnwys cyngherddau, recordiadau (cytundebau BPI), corau eglwys, canu sesiwn a chanu opera llawrydd.
- **Rheoli Llwyfan** Mae'r pwyllgor hwn yn cynrychioli aelodau sy'n gweithio ym maes rheoli llwyfan mewn unrhyw faes o'r diwydiant adloniant.

CENEDLAETHOL

Mae tri phwyllgor cenedlaethol sy'n cynrychioli aelodau yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru. Fel arfer bydd yn rhaid i chi fod yn byw yn y wlad benodol i sefyll ar gyfer unrhyw un o'r pwyllgorau hyn.

CYDRADDOLDEB

Mae cyfle cyfartal yn faes allweddol ac yn un sy'n datblygu ar gyfer Equity ac mae'n llywio popeth a wnawn. Mae ein pedwar pwyllgor cydraddoldeb yn hyrwyddo polisi a gwaith yr undeb er budd yr aelodau y maent yn eu cynrychioli. Y pedwar pwyllgor yw: Byddar ac Anabl; Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol +, Lleiafrifoedd Ethnig; a Menywod.

Mae gan y Pwyllgor Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol + dair sedd wedi'i neilltuo ar gyfer aelodau sy'n uniaethu fel menyw, tair sedd wedi'i neilltuo ar gyfer aelodau sy'n uniaethu fel gwryw a thair sedd wedi'i neilltuo ar gyfer aelodau traws, yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i aelodau trawsryweddol, anneuaidd, rhyweddhylifol, genderqueer a rhyngrywiol.

Er mwyn sefyll ar gyfer y pwyllgorau hyn rhaid i chi fod yn aelod o'r grŵp a gynrychiolir ac yn gallu dangos enillion proffesiynol gwerth £500 neu fwy o unrhyw faes y diwydiant adloniant yn ystod y tair blynedd cyn i'r enwebiadau gau.

AELODAU IFANC

Mae'r pwyllgor hwn yn cynrychioli buddiannau aelodau ifanc Equity ac yn cynnwys aelodau sy'n 30 oed neu iau pan fydd yr enwebiadau'n cau. Er mwyn sefyll ar gyfer y pwyllgor hwn rhaid i chi allu dangos enillion proffesiynol gwerth £500 neu fwy o unrhyw faes y diwydiant adloniant yn ystod y tair blynedd cyn i'r enwebiadau gau.

Mae'r RHEOLAU ar gyfer yr holl bwyllgorau hyn ar gael ar wefan Equity yn: www.equity.org.uk